Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cylchlythyr 001/2020

## **Canllawiau ar Gyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Preswyl Mawr) (Hysbysu) (Cymru) 2020**

Ionawr 2020

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

This document is also available in English.

OGL © Hwlfraint y Goron WG 39764 ISBN digidol 978-1-83933-833-5

## CANLLAWIAU AR GYFARWYDDYD CYNLLUNIO GWLAD A THREF (DATBLYGIAD PRESWYL MAWR) (HYSBYSU) (CYMRU) 2020

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Awdurdodau cynllunio lleol; busnesau; asiantaethau'r llywodraeth; grwpiau eraill yn y sector cyhoeddus; cyrff proffesiynol a grwpiau buddiant; grwpiau gwirfoddol a'r cyhoedd. |
| **Trosolwg** | Mae'r canllawiau hyn a'r cyfarwyddyd hwn yn nodi ei bod yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol gyfeirio ceisiadau cynllunio penodol at Weinidogion Cymru er mwyn iddynt fedru penderfynu a ydynt am alw'r cais i mewn er mwyn iddyn nhw gael penderfynu arno. |
| **Camau gweithredu gofynnol** | Mae angen i awdurdodau cynllunio fod yn ymwybodol y bydd y Cylchlythyr hwn a'r Cyfarwyddyd yn effeithiol o 15 Ionawr 2020 ymlaen a'u bod yn ei gwneud yn ofynnol i:<br><br>Awdurdodau cynllunio lleol gyfeirio ceisiadau at Weinidogion Cymru os ydynt o blaid rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad preswyl ac ynddo 10 neu ragor o unedau preswyl neu ar gyfer datblygiad preswyl ar 0.5 hectar neu ragor o dir, ac nad yw yn unol ag un neu ragor o'r darpariaethau yn y cynllun datblygu sydd mewn grym.<br><br>Mae'r Cylchlythyr a'r Cyfarwyddyd yn diwygio darpariaethau Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Cymru) 2012 a'r darpariaethau yng Nghylchlythyr 07/12 Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â “Datblygiad Preswyl Sylweddol”. Ni fydd y darpariaethau ym mharagraffau 16 i 18 o Gylchlythyr 07/12 sy'n ymdrin â “Datblygiad Preswyl Sylweddol” yn gymwys bellach i geisiadau am ganiatâd cynllunio a wneir ar neu ar ôl 15 Ionawr 2020. |
| **Rhagor o Wybodaeth** | Y Gangen Polisi Cynllunio<br>Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd, CF10 3NQ<br>Ffôn: 03000 256802 neu 03000 253290<br>E-bost: planning.directorate@llyw.cymru |
| **Dogfennau cysylltiedig** | Polisi Cynllunio Cymru (PCC) |

| **Cynnwys** | **Paragraff(au)** |
| --- | --- |
| Cyflwyniad | 1 – 7 |
| Cyd-destun Cyfarwyddyd 2020 | 8 – 10 |
| Cychwyn a Rhychwant | 11 – 15 |
| Diben a Chwmpas | 16 – 17 |
| Gofynion o ran Hysbysu | 18 – 19 |
| Cyfyngu ar Roi Caniatâd Cynllunio | 20 – 21 |
| Monitro ac Adolygu | 22 |
| **Atodiad 1 - CYFARWYDDYD CYNLLUNIO GWLAD A THREF (CYMRU) (DATBLYGIAD PRESWYL MAWR) (HYSBYSU) (CYMRU) 2020** | |

# CANLLAWIAU AR GYFARWYDDYD CYNLLUNIO GWLAD A THREF (DATBLYGIAD PRESWYL MAWR) (HYSBYSU) (CYMRU) 2020

## CYFLWYNIAD

1. Mae adran 77 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (“Deddf 1990”) yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddydau sy'n ei gwneud yn ofynnol i geisiadau am ganiatâd cynllunio, neu i gymeradwyaeth gan unrhyw awdurdod cynllunio lleol sydd ei angen o dan orchymyn datblygu, gael eu cyfeirio atyn nhw yn hytrach na bod yr awdurdodau cynllunio lleol yn penderfynu arnynt.

2. Mae erthygl 14(1) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddydau i awdurdodau cynllunio lleol sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ymgynghori â phersonau penodedig cyn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer mathau penodol o ddatblygiad. Mae erthygl 18(1) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 yn darparu bod Gweinidogion Cymru yn cael rhoi cyfarwyddydau sy'n cyfyngu ar roi caniatâd gan awdurdod cynllunio lleol, naill ai am gyfnod amhenodol neu yn ystod pa gyfnod bynnag a bennir yn y cyfarwyddydau, mewn perthynas ag unrhyw ddatblygiad neu mewn perthynas ag unrhyw ddosbarth a bennir felly. Yn unol ag erthygl 18(3), rhaid i awdurdod cynllunio lleol ymdrin â cheisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad y mae cyfarwyddyd o’r fath a roddir o dan yr erthygl hon yn gymwys iddo mewn modd a fydd yn rhoi effaith i'r cyfarwyddyd.

3. Mae erthygl 22(5) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 yn darparu bod yn rhaid i awdurdod cynllunio lleol ddarparu pa wybodaeth bynnag a wneir yn ofynnol gan Weinidogion Cymru drwy gyfarwyddyd am geisiadau a wnaed o dan erthygl 4 neu erthygl 5 o'r Gorchymyn hwnnw (ceisiadau i gymeradwyo materion a gadwyd yn ôl a cheisiadau am ganiatâd cynllunio, yn y drefn honno), gan gynnwys gwybodaeth am y modd yr ymdriniwyd ag unrhyw gais o'r fath). Caiff unrhyw gyfarwyddyd o'r fath gynnwys darpariaeth ynglŷn â pha bersonau sydd i'w hysbysu a'r modd y mae’r wybodaeth i’w darparu.

4. Mae Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Cymru) (Datblygiad Preswyl Mawr) (Hysbysu) (Cymru) 2020 (Cyfarwyddyd 2020) i'w weld yn Atodiad A.

5. Mae Cyfarwyddyd 2020 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol, wrth iddynt ymdrin â cheisiadau am ganiatâd cynllunio a wneir ar neu ar ôl 15 Ionawr 2020, gyfeirio'r ceisiadau hynny at Weinidogion Cymru os ydynt o blaid rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad preswyl ac ynddo 10 neu ragor o unedau preswyl neu ar gyfer datblygiad preswyl ar 0.5 hectar neu ragor o dir, nad yw yn unol ag un neu ragor o'r darpariaethau yn y cynllun datblygu sydd mewn grym. Mae Cyfarwyddyd 2020 yn disodli'r darpariaethau ynglŷn â “Datblygiad Preswyl Sylweddol” a nodir yng Nghyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Cymru) 2012 (Cyfarwyddyd 2012) a pharagraffau 16 i 18 o Gylchlythyr 07/12 Llywodraeth Cymru. Dim ond i geisiadau a wneir cyn 15 Ionawr 202o y bydd y darpariaethau hynny'n gymwys.

6. Pan fo'n ofynnol i awdurdod cynllunio lleol roi hysbysiad o'r fath i Weinidogion Cymru, rhaid i'r awdurdod beidio â rhoi caniatâd cynllunio i'r cais tan ddiwedd y cyfnod o 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y dyddiad y mae Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r awdurdod yn ysgrifenedig mai dyna'r dyddiad iddynt gael yr wybodaeth a bennir yn y Cyfarwyddyd. Fodd bynnag, caiff yr awdurdod cynllunio lleol fynd ati i benderfynu ar y cais os bydd Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r awdurdod, cyn i'r cyfnod o 21 o ddiwrnodau ddod i ben, nad yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu galw'r cais o dan sylw i mewn o dan adran 77 o Ddeddf 1990, neu os bydd Gweinidogion Cymru o'r farn nad yw'r cais yn un am *Ddatblygiad Preswyl Mawr*.

7. Diben y canllawiau hyn yw sicrhau mai dim ond pan fo angen y bydd Gweinidogion Cymru yn cael eu hysbysu a bod pob penderfyniad yn cael ei wneud ar y lefel briodol.

**CYD-DESTUN CYFARWYDDYD 2020**

8. Mae Cyfarwyddyd 2020 yn disodli'r darpariaethau sy'n ymdrin â "Datblygiad Preswyl Sylweddol" yng Nghyfarwyddyd 2012 ac ym mharagraffau 16 i 18 o Gylchlythyr 07/12 Llywodraeth Cymru. Mae Cyfarwyddyd 2020 yn gymwys i unrhyw gais am ganiatâd cynllunio a wneir ar neu ar neu ar ôl 15 Ionawr 2020. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i hysbysu Gweinidogion Cymru am geisiadau a wneir ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw ar gyfer unrhyw ddatblygiad preswyl ac ynddo 10 neu ragor o unedau preswyl (gan gynnwys fflatiau), neu ar gyfer datblygiad preswyl ar 0.5 hectar neu ragor o dir, nad yw yn unol ag un neu ragor o'r cynllun datblygu sydd mewn grym ac nad yw'r awdurdod yn bwriadu ei wrthod. Mae hyn yn cyd-fynd â'r diffiniad o ddatblygiad preswyl mawr yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) 2012. Mae'r Gorchymyn hwnnw'n diffinio datblygiad preswyl mawr fel a ganlyn: cynnig i adeiladu 10 neu ragor o anheddau neu lle nad yw nifer yr anheddau'n hysbys (ceisiadau amlinellol), neu lle mae safle'r cais yn 0.5 hectar neu ragor.

9. O dan Polisi Cynllunio Cymru (PCC), mae gofyn i gynlluniau datblygu fod yn effeithiol, mae angen iddynt gynnwys nodau pendant, a rhaid bod modd eu cyflawni, yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gan ganolbwyntio ar greu lleoedd ac ar ganlyniadau cynllunio da i gymunedau. Mae'n hanfodol bod cynlluniau datblygu'n cael eu paratoi a'u hadolygu a bod y dyraniadau sydd ynddynt yn cael eu gweithredu yn unol â disgwyliadau cymunedau. Mae Llywodraeth Cymru yn pryderu am y ffaith bod datblygiadau preswyl hapfasnachol ac anghynaliadwy wedi cael eu cynnig y tu allan i gynlluniau datblygu a fabwysiadwyd, a bydd y cyfarwyddyd hwn yn rhoi cyfle i Weinidogion Cymru ystyried a fydd awdurdodau wedi craffu'n briodol ar geisiadau o'r fath. Caiff Gweinidogion Cymru ddewis galw'r cais cynllunio i mewn neu, os bydd hynny'n briodol, rhoi cyfarwyddyd na cheir cymeradwyo'r cais tan y bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd i'r perwyl hwnnw.

10. Mae Cyfarwyddyd 2020 yn cyflwyno meini prawf diwygiedig y mae angen i awdurdodau cynllunio lleol eu defnyddio i benderfynu a ddylid cyfeirio ceisiadau

cynllunio at Weinidogion Cymru. Mae'n nodi'r math o ddatblygiad preswyl a allai godi materion o fwy na phwysigrwydd lleol ac y gallai Gweinidogion Cymru ddymuno eu galw i mewn. Dyna yw diben y broses hysbysu.

## CYCHWYN A RHYCHWANT

11. O 15 Ionawr 2020 ymlaen, bydd y canllawiau sydd yn y cylchlythyr hwn ac yng Nghyfarwyddyd 2020 sydd i'w weld yn Atodiad 1, yn gymwys i unrhyw gais am ganiatâd cynllunio a wneir ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw.

12. **Bydd y darpariaethau yng Nghyfarwyddyd 2012 ac yng Nghylchlythyr 07/12 sy'n ymdrin â "Datblygiad Preswyl Sylweddol" yn parhau'n gymwys i geisiadau a wneir cyn 15 Ionawr 2020.** Mae'r darpariaethau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol gyfeirio ceisiadau os ydynt o blaid rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad preswyl ac ynddo fwy na 150 o unedau preswyl, neu ar gyfer datblygiad preswyl ar ddarn o dir sy'n fwy na 6 hectar, ac nad yw yn unol ag un neu ragor o'r darpariaethau yn y cynllun datblygu sydd mewn grym.

13. Nid yw'r Cylchlythyr hwn na Chyfarwyddyd 2020 yn Atodiad 1 yn diwygio nac yn canslo unrhyw un neu rai o'r darpariaethau sy'n weddill yng Nghyfarwyddyd 2012 ac yng Nghylchlythyr 07/12 mewn perthynas â:

    - Datblygiadau mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd;
    - Datblygiadau mwynau;
    - Datblygiadau gwastraff;
    - Datblygiadau agregau mewn Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Brydferthwch Naturiol Eithriadol.

14. Dim ond o ran Cymru y mae'r canllawiau a Chyfarwyddyd 2020 yn Atodiad 1 yn gymwys.

15. Nid yw Cyfarwyddyd 2020 yn effeithio ar bŵer Gweinidogion Cymru o dan adran 77 o Ddeddf 1990 i gyfarwyddo y dylai unrhyw gais cynllunio penodol gael ei alw i mewn er mwyn iddyn nhw eu hunain gael penderfynu arno, pa un a yw'n dod o dan delerau'r naill Gyfarwyddyd neu'r llall, a chan ystyried eu polisi ar alw ceisiadau i mewn.

## DIBEN A CHWMPAS

16. Mae Cyfarwyddyd 2020 yn egluro'r trefniadau a'r meini prawf ar gyfer ymgynghori â Gweinidogion Cymru ar geisiadau cynllunio ar gyfer mathau penodol o ddatblygiadau preswyl. Diben Cyfarwyddyd 2020 yw rhoi cyfle i Weinidogion Cymru ystyried a ddylent arfer eu pwerau galw i mewn o dan adran 77 o Ddeddf 1990.

17. Effaith Cyfarwyddyd 2020 yw ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol gyfeirio unrhyw gais sy'n dod o fewn paragraff 3 o Gyfarwyddyd 2020 ac nad yw'r awdurdod yn bwriadu gwrthod caniatâd cynllunio ar ei gyfer, at Weinidogion

Cymru. Mae gofyn anfon ceisiadau i swyddfa briodol Llywodraeth Cymru yn unol â'r darpariaethau ym mharagraff 5 o Gyfarwyddyd 2020.

**GOFYNION O RAN HYSBYSU**

18. Mae Cyfarwyddyd 2020 yn cyflwyno gofyniad hysbysu lle mae gofyn i awdurdodau cynllunio lleol gyfeirio ceisiadau ar gyfer *Datblygiadau Preswyl Mawr* at Weinidogion Cymru os nad yw'r awdurdod yn bwriadu gwrthod cais o'r fath. Ceir anfon yr wybodaeth at Weinidogion Cymru yn electronig neu ar ffurf copi caled. Mae'r gofyniad o ran hysbysu yn cynnwys darparu'r wybodaeth a bennir ym mharagraff 5 o Gyfarwyddyd 2020.

19. Mae Cyfarwyddyd 2020 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol gyfeirio ceisiadau os ydynt o blaid rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad preswyl ac ynddo 10 neu ragor o unedau preswyl, neu ar gyfer datblygiad preswyl ar ddarn o dir sy'n 0.5 hectar neu ragor, nad yw yn unol ag un neu ragor o ddarpariaethau'r cynllun datblygiad datblygu sydd mewn grym.

**CYFYNGU AR ROI CANIATÂD CYNLLUNIO**

20. Pan fo'n ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol hysbysu Gweinidogion Cymru, mae Cyfarwyddyd 2020 yn gosod cyfyngiad ar roi caniatâd cynllunio am gyfnod o 21 o ddiwrnodau, a'r cyfnod hwnnw'n dechrau ar y dyddiad y mae Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol yn ysgrifenedig mai dyna'r dyddiad y daeth yr wybodaeth a bennir ym mharagraff 5 o Gyfarwyddyd 2020 i law.

21. Mae Cyfarwyddyd 2020 yn caniatáu i'r awdurdod fynd ati i benderfynu ar y cais cyn i'r cyfnod o 21 o ddiwrnodau ddod i ben o dan amgylchiadau pan fo'r awdurdod wedi cael ei hysbysu'n ysgrifenedig nad yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu galw'r cais i mewn nac yn ystyried bod y datblygiad yn *ddatblygiad i'w hysbysu*.

**MONITRO AC ADOLYGU**

22. Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro'n agos nifer y ceisiadau a fydd yn cael eu cyfeirio at Weinidogion Cymru o ganlyniad i'r gofyniad hwn i'w hysbysu. Bydd hefyd yn monitro nifer y ceisiadau a gaiff eu galw i mewn wedyn. Bydd effaith Cyfarwyddyd 2020 yn cael ei adolygu pan fydd wedi bod ar waith am gyfnod priodol.


**Neil Hemington**

Prif Gynllunydd
Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio
Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol

**Atodiad 1**

I S - D D E D D F W R I A E T H

# CYFARWYDDYD CYNLLUNIO GWLAD A THREF (DATBLYGIAD PRESWYL MAWR) (HYSBYSU) (CYMRU) 2020

## WG20-001

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan erthyglau 18(1), 20, 22(5) a 31 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012(**1**), yn rhoi'r Cyfarwyddyd a ganlyn.

**Cychwyn**

Daw'r Cyfarwyddyd hwn i rym ar 15 Ionawr 2020.

**Dehongli**

Yn y Cyfarwyddyd hwn—

mae i "cyfathrebiad electronig" yr ystyr a roddir i "electronic communication" yn adran 15(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau Electronig 2000 (dehongli cyffredinol)(**2**);

ystyr "datblygiad preswyl mawr" ("*major residential development*") yw datblygiad—

sy'n cynnwys 10 neu ragor o anheddau; neu

sy'n ddatblygiad preswyl ar safle sy'n mesur 0.5 hectar neu ragor; ac

nad yw'n cydymffurfio â darpariaethau'r cynllun datblygu sydd mewn grym yn yr ardal lle y mae safle'r cais wedi'i leoli.

**Cymhwyso**

Mae'r Cyfarwyddyd hwn yn gymwys i unrhyw gais am ganiatâd cynllunio—

mewn perthynas â thir yng Nghymru;

a wneir ar 15 Ionawr 2020 neu ar ôl hynny;

ar gyfer datblygiad sy'n ddatblygiad preswyl mawr;

nad yw'r awdurdod cynllunio lleol yn bwriadu ei wrthod.

**Hysbysu Gweinidogion Cymru**

**4.** Pan na fo awdurdod cynllunio lleol yn bwriadu gwrthod cais am ddatblygiad preswyl mawr, rhaid i'r awdurdod hysbysu Gweinidogion Cymru.

**5.** Pan fo'n ofynnol i awdurdod cynllunio lleol hysbysu Gweinidogion Cymru, rhaid iddo anfon at Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, drwy gyfathrebiad electronig neu fel arall—

(a) copi o'r cais (gan gynnwys copïau o unrhyw blaniau a lluniadau cysylltiedig ac unrhyw asesiad priodol o'r perygl o lifogydd neu unrhyw asesiad priodol arall) a gwybodaeth ategol;

(**1**) O.S. 2012/801 (Cy. 110).

(**2**) 2000 p. 7. Diwygiwyd adran 15(1) gan adran 406(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (p. 21) a pharagraff 158 o Atodlen 17 iddi.

(b) copi o'r hysbysiad gofynnol;

(c) copi o unrhyw sylwadau a wneir i'r awdurdod mewn cysylltiad â'r cais (gan gynnwys unrhyw farn a fynegir gan adran o'r llywodraeth, awdurdod cynllunio lleol arall neu ymgynghorai arall);

(d) copi o unrhyw adroddiad ar y cais a baratoir gan unrhyw un o swyddogion yr awdurdod;

copi o unrhyw farn sgrinio a ddyroddir o dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017(**3**);

copi o unrhyw asesiadau priodol a gynhelir o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010(**4**);

datganiad o'r ystyriaethau perthnasol y mae'r awdurdod o'r farn eu bod yn dangos (os felly y mae hi) y dylid penderfynu ar gais am ddatblygiad preswyl mawr mewn ffordd nad yw'n cydymffurfio â'r cynllun datblygu lleol a fabwysiadwyd neu a gymeradwywyd mewn perthynas â'r ardal lle y mae safle'r cais wedi'i leoli.

**Y cyfnod perthnasol cyn rhoi caniatâd ar gais gwyro**

**6.** Yn ddarostyngedig i baragraff 7, pan fo'n ofynnol i awdurdod cynllunio lleol hysbysu Gweinidogion Cymru, ni chaniateir i'r awdurdod roi caniatâd cynllunio i'r cais tan ddiwedd y cyfnod o 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y dyddiad y mae Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r awdurdod yn ysgrifenedig mai dyna'r dyddiad iddynt gael yr wybodaeth a bennir ym mharagraff 5.

**7.** Caiff yr awdurdod cynllunio lleol fwrw ymlaen i benderfynu ar y cais os bydd Gweinidogion Cymru, cyn diwedd y cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff 6, yn hysbysu'r awdurdod—

(a) nad yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu dyroddi cyfarwyddyd o dan adran 77 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 mewn cysylltiad â'r cais hwnnw; neu

(b) nad yw Gweinidogion Cymru o'r farn bod y datblygiad yn ddatblygiad hysbysu.

**Diwygiadau i Gyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Cymru) 2012**

**8.** Mae Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Cymru) 2012 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(a) ym mharagraff 2 (Dehongli)—

yn y diffiniad o "datblygiad hysbysu" hepgorer paragraff (b); a

hepgorer y diffiniad o "datblygiad preswyl sylweddol".

(b) Ym mharagraff 5 (Hysbysu Gweinidogion Cymru) hepgorer y cyfeiriad at "ddatblygiad preswyl sylweddol", ac yn lle'r gair sy'n dilyn, rhodder "ddatblygiad" yn is-baragraff (g).



*Julie James*
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
9 Ionawr 2020

(**3**) O.S. 2017/567 (W.136), y mae diwygiadau iddo.
(**4**) O.S. 2010/490, y mae diwygiadau iddo.